Memorandwm Esboniadol i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021 a Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE)(Diwygio) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Swyddfa'r Prif Filfeddyg yn Adran yr Amgylchedd, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021 a Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) 2021

Mewn perthynas â Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021, rwyf wedi gwneud y datganiadau sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae'r datganiadau hyn i'w gweld yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm hwn.

Lesley Griffiths AS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
24 Mawrth 2021

Rhan 1

1. Disgrifiad

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud â Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021 ("Offeryn TARP") a Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE)(Diwygio) 2021 ("Offeryn Paratoadau Cig").

Mae angen y ddau offeryn er mwyn sicrhau cysondeb â newidiadau a gyflwynir yn fuan gan Lywodraeth y DU i Reoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 15 Mawrth 2007 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau bod cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion, a chynhyrchion diogelu planhigion (Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol "yr OCR") yn cael eu rhoi ar waith.

Bydd Offeryn TARP yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth, sy'n gymwys o ran Cymru a pharth Cymru, ym maes rheolaethau bioddiogelwch ar gyfer mewnforio anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid. Mae'r Offeryn TARP yn gymwys i Gymru a bydd yn dod i rym ar 31 Mawrth 2021.

Bydd yr Offeryn Paratoadau Cig yn gwneud diwygiad i is-ddeddfwriaeth, sy'n gymwys o ran Cymru a pharth Cymru, mewn perthynas â masnachu cynhyrchion anifeiliaid. Mae'r Offeryn Paratoadau Cig yn gymwys i Gymru a bydd yn dod i rym ar 30 Mawrth 2021.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

<u>Offeryn TARP</u>

Mae'r Offeryn TARP yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru wrth arfer y pwerau a roddir ym mharagraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (y 'Ddeddf Ymadael'), er mwyn mynd i'r afael â methiannau yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol, a diffygion eraill sy'n codi oherwydd bod y Deyrnas Unedig (DU) yn gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE).

Mae'r Offeryn TARP yn cael ei osod o dan y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' ac mae'r datganiad Gweinidogol yn Rhan 2 o'r Atodiad yn nodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwn.

Mae Offeryn TARP yn diwygio diffygion sydd yn Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 (O.S. 2011/2379) (Cy. 252) ("Rheoliadau 2011"), sef yr angen i newid y dyddiad pan fydd gofynion rhaghysbysu trosiannol ar gyfer cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid yn gymwys.

Yr Offeryn Paratoadau Cig

Mae'r Offeryn Paratoadau Cig yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru wrth arfer y pwerau a roddwyd gan baragraff 11A(1) o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 (O.S. 2011/2379) (Cy. 252). Mewnosodir paragraff 11A o Atodlen 2 gan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion ac ati) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020.

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y daw'r Offeryn Paratoadau Cig i rym lai na 21 diwrnod ar ôl i'r offeryn gael ei osod.

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn angenrheidiol er mwyn cyd-fynd â'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer rheolaethau mewnforio UE-Prydain a bennwyd gan Lywodraeth y DU ar 11 Mawrth 2021. Ni fydd cyflwyno tystysgrif iechyd a gofynion rhaghysbysu yn cael eu gorfodi ar Gynhyrchion sy'n dod o Anifeiliaid tan 1 Hydref 2021. Heb y ddeddfwriaeth hon, byddai'n anghyfreithlon i fasnachwyr fewnforio paratoadau cig wedi'u hoeri o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, Ynysoedd Ffaröe, Kalaallit Nunaat (Greenland) neu'r Swistir o 1 Ebrill 2021 ymlaen. Mae'r Offeryn Paratoadau Cig yn angenrheidiol i osgoi unrhyw darfu ar fusnesau ac i roi eglurder cyfreithiol i fasnachwyr o 1 Ebrill 2021 ymlaen.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae angen diwygio deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o gyfraith yr UE i sicrhau bod y llyfr statud yn gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Fe wnaeth y Ddeddf Ymadael drosi'r rhan fwyaf o gyfraith uniongyrchol berthnasol yr UE, fel yr oedd yn sefyll yn union cyn diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu, yn gyfraith ddomestig a chadw deddfau a wnaed yn y DU sy'n gweithredu rhwymedigaethau'r UE. Hefyd, fe wnaeth y Ddeddf Ymadael greu pwerau dros dro i wneud is-ddeddfwriaeth i ddelio â diffygion a fyddai'n codi yn dilyn ymadawiad y DU. Mae Adran 11 o'r Ddeddf Ymadael a pharagraff 1 o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru fynd i'r afael â diffygion.

Offeryn TARP

Mae Offeryn TARP yn diwygio'r diffygion sydd yn Rheoliadau 2011. Mae Rheoliadau 2011 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â masnachu anifeiliaid a chynhyrchion perthynol, gan gynnwys sefydlu fframwaith rheoleiddio ar gyfer masnachu mewn anifeiliaid byw a deunydd genetig, ac ar gyfer mewnforio anifeiliaid byw, deunydd genetig a chynhyrchion sy'n dod o

anifeiliaid. Yn ychwanegol, mae Rheoliadau 2011 yn sefydlu troseddau amrywiol, ac yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wahardd mewnforio unrhyw anifail neu gynnyrch i Gymru os bydd achos o glefyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Cafodd Atodlen 5 ei mewnosod yn Rheoliadau 2011 gan reoliad 32 o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 (OS 2020/1612 (Cy. 337). Mae Atodlen 5 yn gymwys i gynhyrchion ac anifeiliaid byw sy'n tarddu o (a) diriogaeth sy'n ddarostyngedig i drefniadau mewnforio trosiannol arbennig; neu (b) o drydedd wlad heblaw tiriogaeth sy'n ddarostyngedig i drefniadau mewnforio trosiannol arbennig os yw'r cynhyrchion neu'r anifeiliaid byw o dan sylw, cyn eu mewnforio i Gymru—

> (i) wedi eu cyflwyno i Safle Rheoli ar y Ffin a ddynodwyd gan Weinidogion Cymru;
>
> (ii) â Dogfen Mynediad Iechyd Gyffredin sydd wedi'i llenwi er boddhad yr awdurdod perthnasol; a
>
> (iii) wedi cael eu rhaghysbysu.

Mewn perthynas â'r Offeryn TARP, ac yn unol â gofynion y Ddeddf Ymadael, mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, wedi gwneud y datganiadau perthnasol fel y manylir yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm Esboniadol hwn.

Yr Offeryn Paratoadau Cig

Gofynion masnach sy'n seiliedig ar gyfraith yr UE yw gwaharddiadau a chyfyngiadau, ac maent yn atal neu'n cyfyngu ar allforio a mewnforio nwyddau penodol o drydydd gwledydd, lle mae'r UE yn credu bod posibilrwydd iddynt beri lefel o risg i iechyd anifeiliaid, planhigion neu'r cyhoedd.

I fynd i'r afael â hyn, cyflwynodd Gweinidogion Cymru Reoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 (O.S. 2021/1 (Cy. 1)) ("Rheoliadau Cig 2021") er mwyn caniatáu mewnforio rhai Cynhyrchion gwaharddedig sy'n dod o Anifeiliaid y mae gwaharddiadau a chyfyngiadau yn effeithio arnynt, o'r UE i Brydain Fawr rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2021. I bob pwrpas, roedd hyn yn atal dros dro y gwaharddiad ar fewnforio paratoadau cig wedi'u hoeri o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, Ynysoedd Ffaröe, Kalaallit Nunaat (Greenland) neu'r Swistir.

Roedd Rheoliadau Cig 2021 yn dileu dros dro y gwaharddiad ar fewnforio paratoadau cig wedi'u hoeri o'r gwledydd hynny i Gymru rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2021. Pwrpas hyn oedd sicrhau parhad ar ôl i'r cyfnod pontio gyda'r UE ddod i ben. Yn sgil hyn, roedd rheolau mewnforio presennol yn berthnasol i'r paratoadau cig wedi'u hoeri tan 31 Mawrth 2021 yn unol â 'dull gweithredu

fesul cam' Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer rheolaethau mewnforio.

Bydd yr Offeryn Paratoadau Cig yn ymestyn yr atal dros dro ar waharddiadau a chyfyngiadau ar baratoadau cig wedi'u hoeri o Aelod-wladwriaethau'r AEE, Ynysoedd Ffaröe, Kalaallit Nunaat (Greenland) a'r Swistir tan 30 Medi 2021. Bydd hyn yn golygu bod unrhyw wahardd a chyfyngu yn digwydd yn unol â'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer cyflwyno rheolaethau mewnforio fesul cam ar nwyddau sy'n cyrraedd o'r gwledydd hynny. Hefyd, bydd yn sicrhau dull cyson o ymdrin â mewnforion ac yn rhoi eglurder cyfreithiol i fasnachwyr. Heb y ddeddfwriaeth hon, byddai'n anghyfreithlon i fasnachwyr fewnforio paratoadau cig wedi'u hoeri o 1 Ebrill 2021 ymlaen. Gallai hyn gael effaith niweidiol ar fusnesau dethol ac ar ddefnyddwyr yng Nghymru gan gyfyngu o bosibl ar faint o gynnyrch penodol fyddai ar gael.

Mae cael gwared dros dro ar y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid yn fesur cymesur i sicrhau parhad mewn masnach, gan fod y nwyddau hyn yn peri risg isel o ran bioddiogelwch. Mae'r nwyddau hyn yn cael eu mewnforio ar hyn o bryd ac nid yw'r cynnyrch hyn yn peri pryder o ran iechyd y cyhoedd. Nid oes disgwyl i'r sefyllfa hon newid ar 1 Ebrill 2021.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Offeryn TARP

Bydd yr offeryn TARP yn gohirio cyflwyno'r gofynion rhaghysbysu ar gyfer nwyddau perthnasol sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid rhwng 1 Ebrill 2021 a 1 Gorffennaf 2021.

Yn dilyn adolygiad gan swyddogion o'r cynllun gweithredu ar gyfer rheolaethau mewnforio gan gynnwys archwiliadau Iechydol a Ffytoiechydol ("SPS") ar anifeiliaid byw a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, mae penderfyniad wedi'i wneud i ohirio cyflwyno archwiliadau dogfennol a ffisegol mewn Safleoedd Rheoli dynodedig ar y Ffin. Y rheswm dros hyn yw bod busnesau ac awdurdodau cymwys, ers diwedd y cyfnod pontio, wedi gorfod addasu a bodloni gofynion sylweddol newydd yr UE a'r DU wrth symud nwyddau o dan y berthynas fasnachu newydd â'r UE.

Mae hyn yn cefnogi'r amserlen ddiwygiedig sy'n oedi cyflwyno archwiliadau dogfennol a ffisegol mewn Safleoedd Rheoli dynodedig ar y Ffin. Bydd yr archwiliadau hyn yn cael eu cyflwyno fesul cam, o 1 Hyd 2021 i 1 Ionawr 2022 a thu hwnt.

Bydd yr amserlen ddiwygiedig hon yn rhoi mwy o amser i fusnesau ac awdurdodau cymwys baratoi wrth iddynt addasu i'r berthynas fasnachu newydd a dod dros effeithiau hirach a dyfnach pandemig COVID-19.

Yr Offeryn Paratoadau Cig

Ers diwedd y cyfnod pontio, mae busnesau ac awdurdodau cymwys wedi gorfod bodloni gofynion sylweddol newydd yr UE a'r DU wrth symud nwyddau o dan y berthynas fasnachu newydd â'r UE. Mae llawer o fusnesau ac awdurdodau cymwys o'r fath yn wynebu heriau a phrinder adnoddau wrth baratoi ar gyfer newidiadau o'r fath mewn cyfnod byr, gan ddelio â'r ymateb i bandemig Covid-19 hefyd.

Mae'r Offeryn Paratoadau Cig yn diwygio Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 (O.S. 2021/1 (Cy. 1)) ("Rheoliadau Cig 2021"). Mae'r Offeryn Paratoadau Cig yn ymestyn y gofyniad i gael gwared dros dro ar y gofynion i baratoadau cig a fewnforir i Gymru o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, Ynysoedd Ffaröe, yr Kalaallit Nunaat (Greenland) neu'r Swistir fod wedi'u rhewi'n ddwfn, o 31 Mawrth tan 30 Medi 2021. Bwriad dileu'r gofyniad hwn dros dro o hyd yw sicrhau bod y polisi'n cyd-fynd â'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer cyflwyno rheolaethau mewnforio fesul cam ar nwyddau sy'n cyrraedd o'r gwledydd hyn. Bydd hyn yn cynnig dull cyson o ymdrin â mewnforion ac yn atal unrhyw darfu ar fusnesau. Mae'r dull hwn yn peri risg bioddiogelwch isel gan fod y DU yn mewnforio'r nwyddau hyn o'r gwledydd hyn yn barod.

5. Beth mae'r offerynnau yn ei wneud

Offeryn TARP

Mae Offeryn TARP yn diwygio'r dyddiad 1 Ebrill 2021 ym mharagraffau 5(3) a 6(1)(c) o Atodlen 5 i Reoliadau 2011, ac yn rhoi 1 Gorffennaf 2021 yn ei le. Cafodd Atodlen 5 ei mewnosod yn Rheoliadau 2011 gan reoliad 32 o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 (OS 2020/1612 (Cy. 337).

Mae paragraff 5(3) o Atodlen 5 i Reoliadau 2011 yn ymwneud â'r gofyniad rhaghysbysu ar gyfer nwyddau perthnasol sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid.

Mae paragraff 6(1)(c) o Atodlen 5 yn ymwneud â'r gofyniad bod yn rhaid i nwyddau perthnasol sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid gael tystysgrif iechyd briodol ar gyfer mewnforion o drydedd wlad ar y ffurf a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol.

Mae angen y newidiadau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r newidiadau a wneir cyn bo hir i'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol gan Lywodraeth y DU ar draws Prydain gyfan. Bydd y newidiadau arfaethedig hyn

yn arwain at oedi wrth gyflwyno archwiliadau dogfennol a ffisegol mewn Safleoedd Rheoli dynodedig ar y Ffin.

Yr Offeryn Paratoadau Cig

Mae'r Offeryn Paratoadau Cig yn diwygio Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 i ymestyn y cyfnod atal dros dro ar gyfer y gofyniad i baratoadau cig a fewnforir i Gymru o sefydliadau yn Aelod-wladwriaethau'r AEE, Ynysoedd Ffaröe, Kalaallit Nunaat (Greenland) neu'r Swistir, gael eu rhewi'n ddwfn, drwy newid y dyddiad 31 Mawrth 2021, a'i ymestyn i 30 Medi 2021. Mae hyn yn cyd-fynd â dull gweithredu Defra a Llywodraeth yr Alban, gan sicrhau cysondeb.

6. Ymgynghori

Ac ystyried natur frys y newidiadau hyn, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi cael ei gynnal. Fodd bynnag, mae ymgysylltu helaeth wedi bod â rhanddeiliaid ledled Prydain yn y diwydiant Bwyd-Amaeth a chyda phartneriaid cyflawni sydd â chyfrifoldebau dros reolaethau ffiniau Safleoedd Rheoli ar y Ffin (fel awdurdodau ffiniau lleol, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion a'r Asiantaeth Safonau Bwyd), ers mis Ionawr 2021.

7. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r buddiannau a fyddai'n debygol wrth gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Roedd swyddogion o'r farn bod hon yn sefyllfa frys ac eithriadol. Mae angen i'r diwygiadau fod wedi'u gwneud erbyn 30 a 31 Mawrth i sicrhau cysondeb ar draws y DU. Er bod disgresiwn wrth i Weinidogion Cymru arfer eu pwerau statudol, byddai dilyn dull gweithredu gwahanol i'r drefn mewnforion ar gyfer Prydain gyfan a bennwyd gan Lywodraeth y DU yn arwain at ddryswch i fasnachwyr ac yn amharu ar fasnach. Yn benodol, gallai nwyddau sy'n cael eu mewnforio i'r DU wynebu gofynion mewnforio gwahanol mewn gwahanol wledydd yn y DU, ond yn gallu symud yn rhydd o fewn y DU ar ôl iddynt gael eu mewnforio. Mae'r newidiadau hyn yn golygu estyniad dros dro i'r drefn fewnforio bresennol, a fydd yn newid ym mis Hydref 2021.

Atodiad: Datganiadau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Rhan 1: Tabl Datganiadau o dan Ddeddf 2018

Mae'r tabl hwn yn nodi'r datganiadau a allai fod yn ofynnol gan Weinidogion Cymru dan Ddeddf 2018. Mae'r tabl hefyd yn nodi'r datganiadau hynny a allai fod yn ofynnol gan Weinidogion y Goron o dan Ddeddf 2018, y mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i'w darparu hefyd pan fo angen. Mae'r datganiadau gofynnol i'w gweld yn Rhan 2 o'r atodiad hwn.

Datganiad	Ymhle mae'r gofyniad	I bwy mae'n berthnasol	Beth sydd yn ofynnol ganddo
Sifftio	Paragraffau 3(7) a 4(4), Atodlen 7 Paragraff 3(7) (rhagdybir ei fod yn ofyniad ar Weinidogion Cymru mewn Rheolau Sefydlog)	Gweinidogion Cymru sy'n arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 i wneud Offeryn Statudol negyddol Mae paragraff 3(7) yn gymwys i Weinidogion y Goron, ond mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad	Datganiad i esbonio pam y dylai'r offeryn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ac, os yw'n berthnasol, pam eu bod yn anghytuno ag argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (fel pwyllgor sifftio)
Priodoldeb	Is-baragraff (2) o baragraff 28, Atodlen 7	Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad nad yw'r Offeryn Statudol yn gwneud mwy na'r hyn sy'n briodol.
Rhesymau Da	Is-baragraff (3) o baragraff 28, Atodlen 7	Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn	Datganiad i esbonio'r rhesymau da dros wneud yr offeryn a bod yr hyn sy'n cael

		adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	ei wneud yn gam rhesymol i'w gymryd.
Cydraddoldeb	Is-baragraffau (4) a (5) o baragraff 28, Atodlen 7	Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad i egluro pa ddiwygiadau, diddymiadau neu ddirymiadau, os o gwbl, sy'n cael eu gwneud i Ddeddfau Cydraddoldeb 2006 a 2010 a'r ddeddfwriaeth a wnaed oddi tanynt. Datganiad bod y Gweinidog wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu ac ymddygiad o fath arall sydd wedi'i wahardd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
Esboniadau	Is-baragraff (6) o baragraff 28, Atodlen 7	Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad i egluro'r offeryn, nodi'r gyfraith berthnasol cyn y diwrnod ymadael, esbonio effaith yr offeryn ar gyfraith yr UE a ddargedwir a rhoi gwybodaeth am ddiben yr offeryn, ee, ai dim ond mân newidiadau neu newidiadau technegol y bwriedir eu gwneud i gyfraith yr UE a ddargedwir.
Troseddau	Is-baragraffau (3) a (7) o baragraff 28, Atodlen 7	Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad yn nodi'r 'rhesymau da' dros greu trosedd, a'r gosb sydd ynghlwm.

Is-ddirprwyo	Paragraff 30, Atodlen 7	Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a pharagraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol na ellir ei arfer gan Weinidog y Goron neu Awdurdod Datganoledig. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 neu baragraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol na ellir ei arfer gan Weinidog y Goron neu Awdurdod Datganoledig	Datganiad i esbonio pam ei bod yn briodol creu pŵer o'r fath sydd wedi'i is-ddirprwyo.
Brys	Is-baragraffau (2) a (8) o baragraff 7, Atodlen 7	Gweinidogion Cymru sy'n arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 ond sy'n defnyddio'r weithdrefn frys ym mharagraff 7 o Atodlen 7	Datganiad

Rhan 2

Datganiadau sy'n ofynnol wrth ddefnyddio pwerau galluogi o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

1. Datganiad priodoldeb

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

"Yn fy marn i, nid yw Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021 yn gwneud dim mwy na'r hyn sy'n briodol. Mae hyn yn wir oherwydd mai dim ond er mwyn mynd i'r afael â diffygion sy'n codi o ymadael â'r UE y mae'r holl newidiadau'n cael eu gwneud."

2. Rhesymau da

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

"Yn fy marn i, mae rhesymau da dros y darpariaethau yn Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021, ac rwyf wedi dod i'r casgliad eu bod yn ffordd resymol o weithredu. Mae manteision i fusnesau ac awdurdodau lleol sy'n gorfod paratoi ar gyfer trefn mewnforio newydd ar ôl i'r DU ymadael â'r UE yn ystod pandemig COVID-19 a'r cyfnod adfer."

3. Cydraddoldeb

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad canlynol:

"Nid yw Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021 yn diwygio, yn diddymu nac yn dirymu darpariaeth neu ddarpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2006 na Deddf Cydraddoldeb 2010 nac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau hynny."

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Mewn perthynas â Rheoliadau’r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2021, rwyf i, Lesley Griffiths, wedi rhoi sylw dyledus i’r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad o fath arall sydd wedi’i wahardd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.”

4. Esboniadau

Mae’r datganiad Esboniadau wedi’i wneud yn adran 4 (Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael) ym mhrif gorff y memorandwm esboniadol hwn.

5. Troseddau

Nid yw’n berthnasol/angenrheidiol.

6. Is-ddirprwyo deddfwriaethol

Nid yw’n berthnasol/angenrheidiol.

7. Brys

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Yn fy marn i, oherwydd brys, mae’n angenrheidiol gwneud Rheoliadau’r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2021, heb i ddrafft o’r Rheoliadau gael ei osod gerbron y Senedd, a’i gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Senedd”.

Mae hyn oherwydd bod Gweinidogion Cymru wedi dod i’r casgliad bod angen y weithdrefn ‘gadarnhaol gwnaed ar frys’ y darperir ar ei chyfer yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 er mwyn sicrhau bod yr offeryn hwn yn dod i rym cyn 1 Ebrill 2021. Os na wneir hynny, o 1 Ebrill 2021 ymlaen, bydd yn rhaid i fewnforwyr gydymffurfio â mesurau rheoli newydd penodol wrth fewnforio nwyddau anifeiliaid penodol.

Mae defnyddio’r weithdrefn hon yn dal i ganiatáu craffu, a bydd angen i’r Senedd gymeradwyo’r Rheoliadau er mwyn iddynt aros mewn grym.”